**Eitem Agenda Rhif 4**

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Gwener 11 Mawrth 2011 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorydd G.A. Green, Mr G.F. Roberts, Ms M.E. Medley a Mrs P. White.
Roedd y Cynghorwyr W.L. Cowie a M.Ll. Davies yn mynychu fel Arsyllwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Dirprwy Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Gweinyddu (C.I. Williams).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), Cynghorydd H.Ll. Jones a'r Swyddog Monitro (JK).

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Mr C.B. Halliday, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is gadeirydd, Mr G.F. Roberts.

Mynegodd y Pwyllgor ei ddymuniadau gorau i'r Cadeirydd gan ddymuno gwellhad buan iddo.

**2. DATGANIADAU BUDD**

***PENDERFYNWYD -*** *nad oedd un Aelod wedi datgan unrhyw fudd personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.*

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, ei hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd dydd Gwener 17 Rhagfyr 2010.

Materion yn codi:-

5. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd - Hysbysodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol y Pwyllgor fod arolwg dadansoddi anghenion hyfforddi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar Aelodau'r Cyngor Sir. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Rheolwr

Datblygu a Chefnogi Aelodau, eglurodd eu bod wedi cytuno i wahodd Cadeiryddion ac Is gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned i fynychu sesiynau hyfforddi, ac y byddai adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.A. Green, eglurwyd y byddai pob Aelod o'r Cyngor Sir yn cael ei gyfweld i sicrhau ei anghenion a'i ofynion hyfforddi personol. Mewn ymateb i gais gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol, y dylid estyn gwahoddiad i Aelodau'r Pwyllgor Safonau fynychu sesiynau hyfforddi.

8. Eitemau brys. (4) Manylion Aelodau'r Pwyllgor Safonau - dosbarthodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol, restr o fanylion personol Aelodau'r Pwyllgor Safonau fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir, o ystyried yr uchod.*

## 5. PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Hysbysodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol y Pwyllgor nad oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig yn ymwneud â phresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref na Chymuned.

Hysbysodd y Cynghorydd G.A. Green y Pwyllgor ei fod wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Tref Prestatyn a dywedodd ei fod yn teimlo bod llawer gormod o gwynion parhaus wedi'u hanfon at yr Ombwdsmon am Aelodau'r Cyngor Tref. Ni chyfeiriodd y Cynghorydd Green at natur un o'r cwynion a anfonwyd. Fodd bynnag, mynegodd bryder fod y Cod Ymddygiad yn cael ei ddefnyddio fel offeryn gwleidyddol ac awgrymodd y dylid anfon sylwadau at Swyddfa'r Ombwdsmon yn amlygu'r pryderon a fynegwyd ac awgrymu cyflwyno proses lle gellid hidlo cwynion, ar lefel leol, cyn eu hanfon yn swyddogol at yr Ombwdsmon.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cwynion yn y gorffennol wedi'u trafod ar lefel leol ac yna eu hanfon at yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, o fewn y system bresennol, roedd cwynion yn awr yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon. Hysbysodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol yr Aelodau fod eitem am y broblem hon wedi'i chynnwys ar agenda Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru i'w thrafod a'i hystyried.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i wahodd y Swyddog Monitro i gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth, oedd yn rhoi trosolwg a manylion yn ymwneud â'r nifer o gwynion a anfonwyd at yr Ombwdsmon, cyn iddyn nhw anfon sylwadau at yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol y byddai'n bwysig sicrhau nad oedd unrhyw wybodaeth fyddai'n cael ei darparu, yn cyfaddawdu sefyllfa'r Pwyllgor o safbwynt unrhyw wrandawiadau neu ymchwiliadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa, a*
*(b) gwahodd y Swyddog Monitro i gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth, oedd yn rhoi trosolwg a manylion yn ymwneud â'r nifer o gwynion a anfonwyd at yr Ombwdsmon.*

## 6. LLE GWAG I AELOD O GYNGOR TREF A CHYMUNED

Hysbysodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol y Pwyllgor fod pedwar enwebiad wedi'u derbyn oddi wrth Gynghorau Tref a Chymuned Llangollen, Llandegla, Llanferres a Llanynys ar gyfer y lle gwag ar gyfer Aelod Cyngor Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau. Hysbysodd yr Aelodau y byddai'r pedwar enwebiad yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Cyngor Sir ar 12 Ebrill 2011. Rhoddwyd manylion yn ymwneud ag enwau'r enwebai i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD** -bod y Pwyllgor Safonau'n nodi'r sefyllfa.*

## 7. PANEL DYFARNU AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMRU 2010

Hysbyswyd yr Aelodau bod copi o Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2010.

Ymatebodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol i gwestiynau Aelodau a rhoddodd fanylion y broses benodi i'r Panel a chadarnhaodd fod Aelod Lleyg wedi'i gynnwys yn ei gyfansoddiad.

Mynegodd y Cynghorydd G.A Green y farn fod y gwaith a wnaed gan y Panel yn glodwiw a bod yr adroddiad wedi bod yn deg ac yn gyfiawn.

Eglurodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol fod y Panel wedi delio â'r honiadau mwy difrifol a gyfeiriwyd yn uniongyrchol oddi wrth yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd mai dim ond wythfed ran o'r Apeliadau a drafodwyd gan y Panel oedd wedi'u gwrthdroi oedd yn cadarnhau'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgorau Safonau ar draws Cymru.

Cytunodd yr Aelodau gyda'r awgrym a gyflwynwyd gan y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau'n mynegi'r farn, yn y cyfarfod o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, eu bod yn falch gyda'r gwaith a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru.

***PENDERFYNWYD**– bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi ei gynnwys, ac*
*(b) yn mynegi ei farn, yn y cyfarfod o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, eu bod yn falch o waith Panel Dyfarnu Cymru.*

## 8. CYNADLEDDAU SAFONAU 2011

(i) Cynhadledd Safonau Cymru 2011

Hysbyswyd yr Aelodau am ddyddiad Cynhadledd Safonau Cymru 2011 fydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Powys ar 5 Hydref 2011. Eglurwyd bod gwahoddiad i fynychu wedi'i estyn i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau at eu presenoldeb mewn Cynadleddau Safonau blaenorol gan amlygu'r gwerth a'r buddion a brofwyd a'r wybodaeth a ddysgwyd.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn yr adroddiad.*

(ii) Cyfarfod arfaethedig Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Hysbyswyd yr Aelodau am y cyfarfod arfaethedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 15 Ebrill 2011. Bydd Swyddogion Monitro, Cadeiryddion ac Is gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru'n mynychu i drafod y posibilrwydd o drefnu Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Gofynnodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol am sylwadau am bynciau y byddai'r Aelodau'n hoffi eu hystyried mewn cyfarfodydd y dyfodol o gynadleddau'r Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Cyfeiriodd at y pynciau eang oedd wedi'u hystyried yng Ngweithdai Cynhadledd Cymru Gyfan y llynedd. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned, Awdurdod yr Heddlu, Safonau Proactif a Gwrandawiadau'r Pwyllgor Moeseg, rôl Swyddogion Monitro, Canllaw'r Cod Ymddygiad ac Ymgysylltu â'r Cyfryngau Cymdeithasol Newydd.

Teimlai'r Cynghorydd G.A. Green y gallai'r gweithdy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad fod wedi'i ddarlunio'n fwy realistig a phwysleisiodd bwysigrwydd, i'r holl Gynghorau, y Datganiad Budd a sut gellid canfod budd niweidiol o fewn amrywiol amgylchiadau gwahanol. Cyfeiriodd yn benodol at y peryglon sy'n ymwneud â Chyfryngau Cymdeithasol a'r risgiau posibl i bob unigolyn oedd yn cymryd rhan neu'n ymateb i sylwadau a wneir ar safleoedd rhwydwaith y cyfryngau cymdeithasol fel Blog neu Drydar.

Yn ystod y drafodaeth oedd yn dilyn, cytunodd Aelodau'r Cyhoedd gydag awgrym y Cadeirydd eu bod yn gofyn am arweiniad Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru am dderbynioldeb y nifer o gwynion a godwyd gyda'r Ombwdsmon.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau'n gofyn i'r meysydd canlynol gael eu cyflwyno fel awgrymiadau o eitemau i'w trafod mewn gweithdai: Cyfryngau Cymdeithasol, Budd Personol a Niweidiol a Chwynion Gwamal.*

## 9. COD YMDDYGIAD A CHOFRESTRU BUDD AELODAU

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor am yr ohebiaeth a ddosbarthwyd yn ddiweddar i Aelodau'r Cyngor Sir am y Gofrestr Budd a chopi o ganllaw poced i'r Cod Ymddygiad. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru'n cael eu hysbysu am ddosbarthu'r canllaw poced i'r Cod Ymddygiad er gwybodaeth.

Eglurodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol fod ffurflen wedi'i dosbarthu i Aelodau fyddai'n eu galluogi i ddiweddaru eu Cofrestr Budd, yn dilyn awgrym gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhaodd fod hwn yn ymarfer cadw tŷ a wnaethpwyd o fewn y Gwasanaethau Democrataidd i ddiweddaru'r Gofrestr oedd yn ddogfen gyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cytunodd y Cyfreithiwr: Rheolaeth Gorfforaethol i ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro a oedd angen i Aelodau'r Pwyllgor Safonau gwblhau'r ffurflen ai peidio a sicrhau ymateb i holl Aelodau'r Pwyllgor.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor gyda'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd G.A. Green y dylid cofnodi rhagoriaeth y Siart Llif ac y dylid canmol y rhai fu'n ymwneud â'i lunio. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid dosbarthu copi o'r canllaw poced i'r Cod Ymddygiad, gan gynnwys y siart llif, i bob un o Glercod Cynghorau Tref a Chymuned i'w ddosbarthu i Aelodau eu Pwyllgorau.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad, ac*
*(b) yn gofyn am ddosbarthu copi o'r canllaw poced i'r Cod Ymddygiad, gan gynnwys y siart llif, i bob un o Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 a.m.

**Eitem Agenda Rhif 6**

**ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN: Y Swyddog Monitro**

**DYDDIAD: 6ed Mai 2011**

**PWNC:**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn chwarter cyntaf 2011 a chyflwyno'r syniad o 'Brotocol Hunan-reoleiddio' sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymarfer. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi codi pryderon yn y gorffennol ynglŷn â'r nifer o gwynion a wnaed rhwng Aelodau a all fod yn gysyltiedig â mân gwynion ac ynddynt eu hunain heb fod yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon fel achosion o dorri'r Cod Ymarfer.

2.2 Mae Paragraff 6(1) Cod Ymarfer Aelodau yn datgan na ddylai Aelodau wneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn Aelodau eraill; mae hyn ynddo'i hun yn torri'r Cod. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon yn y gorffennol bod y Cod ar achlysur yn cael ei ddefnyddio fel arf gwleidyddol ac nad dyma ei bwrpas. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gael ei hysbysu'n rheolaidd o lefel a natur cwynion aelod-aelod.

2.3 Mae Protocol Hunan-reoleiddio'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a phan gaiff ei gwblhau cyflwynir adroddiad gyda'r Protocol i'r Pwyllgor Safonau ei ystyried. Pwrpas y Protocol fydd sefydlu trefn ar gyfer y cwynion hynny nad ydynt efallai yn cyrraedd y trothwy i fod yn achos o dorri'r Cod, i'w trin dan drefniadau lleol; a bod yr hyn sy'n cyfiawnhau cwyn ffurfiol yn cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon. Os caiff ei fabwysiadu, bwriad y Protocol yw eistedd ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer; ni fyddai'n disodli'r Cod. Mae manylion y Cod yn dal i gael eu datblygu, ond byddai'r cynnig presennol yn cynnwys ymrwymiad gan Arweinwyr Grwpiau ac un aelod (yn eu tro) o'r Pwyllgor Safonau. Bydd hefyd angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried ymestyn Protocol o'r fath i holl Gynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2.4 Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o'r cwynion ers 1af Ionawr 2011:

| **Awdurdod** | **Cwyn Honedig** | **Canlyniad Ombwdsmon GCC** | **Ffynhonnell y Gwyn** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Prestatyn | Defnyddio adnoddau'r Awdurdod yn amhriodol | Nis cadarnhawyd / dilynwyd | Aelod o'r cyhoedd |
| Cyngor Sir Ddinbych | Buddiant personol / sy'n rhagfarnu | Nis cadarnhawyd / dilynwyd | Aelod – Aelod |
| Cyngor Sir Ddinbych | Methu â datgan buddiant personol | Mynd rhagddo | Aelod o'r cyhoedd |
| Cyngor Sir Ddinbych | Defnyddio adnoddau'r Awdurdod yn amhriodol | Mynd rhagddo | Aelod – Aelod |
| Cyngor Tref y Rhyl | Torri Cyfrinachedd | Nis cadarnhawyd / dilynwyd | Aelod - Aelod |

## 3 ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau'n cydnabod cynnwys yr adroddiad hwn a'r syniad o ddatblygu Protocol Hunan-reoleiddio.